
# Hen Wlad fy Nhadau [Land of My Fathers] National Anthem of Wales

*James James (1856)*



Mae hen wlad fy nhadau yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion, enwogion o fri;
Ei gwrol rhyfelwyr, gwlad garwyr tra mad,
Tros ryddid collasant eu gwaed.

Cytgan:
Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad!
Tra mor yn fur,
I'r bur hoff bau
O bydded i'r heniaith barhau.

Hen Gymru fynyddig, paradwys y bardd,
Pob dyffryn, pob clogwyn, i'm golwg sydd hardd;
Trwy deimlad gwladgarol, mor swynol yw si
Ei nentydd, afonydd, i mi.

Os treisiodd y gelyn fy ngwlad dan ei droed,
Mae hen iaith y Cymry mor fyw ag erioed,
Ni luddiwyd yr awen gan erchyll law brad,
Na thelyn berseiniol fy ngwlad.